

Tribiwnlys Anghenion  
Addysgol Arbennig Cymru



Special Educational  
Needs Tribunal for Wales

# Hawliadau Gwahaniaethu ar sail Anabledd

**Rydw i wedi gwneud Hawliad, Sut  
rydw i'n Paratoi Datganiad Achos?  
Canllaw i Rieni**

**Cyfeiriad:**

**TAAAC  
Adeiladau'r Llywodraeth  
Spa Road East  
Llandrindod  
Powys, LD1 5HA**

**E-bost: [sentw@wales.gsi.gov.uk](mailto:sentw@wales.gsi.gov.uk)**

**Gwefan: [SENTW](#)**

**Llinell Gymorth: 01597 829800**

**Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg. Cysylltwch â'r tribiwnlys am fersiwn  
Saesneg o'r ddogfen hon.**

## Dewis iaith

Mae'r tribiwnlys yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg neu yn Saesneg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. Mae'r tribiwnlys hefyd yn croesawu galwadau ffôn yn Gymraeg neu'n Saesneg.

Gallwch chi gyflwyno ffurflenni, dogfennau a chyflwyno sylwadau ysgrifenedig i'r tribiwnlys yn Gymraeg neu'n Saesneg.

## Gwybodaeth am y canllaw hwn

Dylech ddarllen y daflen hon gyda'n llyfryn canllaw **Sut i wneud hawliad**. Os nad oes gennych chi gopi o'r llawlyfr gofynnwch i ni am un.

Pwrpas y daflen hon yw rhoi gwybodaeth ddefnyddiol am baratoi datganiad achos lle mae Hawliad Gwahaniaethu ar sail Anabledd wedi cael ei wneud i TAAAC.

Allwn ni ddim ymdrin â phopeth a fyddai'n ddefnyddiol ar gyfer pob hawliad.

Dylech gysylltu â TAAAC os oes gennych unrhyw gwestiynau am y broses. Allwn ni ddim rhoi cyngor cyfreithiol na chynnig eich helpu i baratoi hawliad.

Os ydyn ni eisoes wedi cael gwybodaeth am eich Cais am Hawliad, does ddim rhaid i chi ddweud wrthon ni eto.

## Ar gyfer pwy mae'r canllaw hwn?

Canllaw i rieni sydd wedi gwneud hawliad gwahaniaethu ar sail anabledd i TAAAC ydy hwn.

Gall plant a phobl ifanc hefyd yn gwneud neu eu hawliad eu hunain.

## Prif Amcan a Rhwymedigaeth i Gydweithredu

Prif amcan y Tribiwnlys yw delio ag achosion mewn ffordd deg a chyfiawn. Mae'r Tribiwnlys yn disgwyl i rieni, cynrychiolwyr, swyddogion Awdurdodau Lleol a chyrrff cyfrifol helpu i hyrwyddo'r prif amcan drwy gydweithredu â'i gilydd a'r Tribiwnlys er mwyn bwrw ymlaen â'r apêl neu'r hawliad.

## Dweud wrthon ni am eich achos

Mae gennych chi ddau gyfle i ddweud wrthon ni am eich achos, sef, yn gyntaf, drwy ysgrifennu atom cyn y bydd gwrandawriad eich hawliad yn cael ei gynnal, ac, yn ail, yn y gwrandawriad.

Cyn y gwrandawriad, mae'n rhaid i chi anfon datganiad achos ysgrifenedig atom. Pwrpas hyn yw i ni gael eich sylwadau ar yr hawliad a'r ffeithiau. Ar yr un pryd, bydd y Corff Cyfrifol yn anfon ei ddatganiad achos ei hun i mewn. Bydd aelodau panel y tribiwnlys yn ystyried y ddau yn y gwrandawriad.

Ar ôl y dyddiad cau ar gyfer y datganiadau achos, byddwn yn gwneud yn siŵr eich bod chi a'r Corff Cyfrifol yn gweld datganiadau achos eich gilydd. Byddwn yn rhoi set o bapurau gyda'r tudalennau wedi'u rhifo i chi a'r Corff Cyfrifol.. Bydd angen i chi ddod â'r rhain gyda chi i'r gwrandawriad.

Yn y gwrandawriad, bydd cyfle i chi ac unrhyw dyst sy'n dod gyda chi roi eich sylwadau ar yr hawliad ac esbonio'r ffeithiau i banel y tribiwnlys.

Mae'r dystiolaeth rydych chi'n ei hanfon i ni cyn y gwrandawriad a'r hyn rydych chi'n ei ddweud ar y diwrnod cyn bwysiced â'i gilydd. Dim ond y dystiolaeth rydych chi a'r Corff Cyfrifol yn ei roi i ni y mae'r Tribiwnlys yn gallu ei ystyried wrth wneud ei benderfyniad. Os ydych chi am i'r Tribiwnlys ystyried rhywbeth, gwnewch yn siŵr ei fod wedi'i gynnwys yn y dystiolaeth.

## Anfon tystiolaeth atom

Wrth baratoi eich datganiad achos, helpwch ni drwy wneud y canlynol:

- lle bo modd, dylai'r papurau fod yn gopiâu ar un ochr i bapur A4, heb eu styffylu,
- dylai'r papurau fod mewn du a gwyn. Dydyn ni ddim yn gallu gwneud copiâu lliw felly rydym yn awgrymu eich bod yn gwneud llungopi o unrhyw lyfrynnau, e.e. prospectws ysgol, ac anfon hwnnw atom,
- peidiwch ag ychwanegu eich rhifau tudalennau eich hun,
- cofiwch gynnwys rhestr cynnwys ar gyfer pob adroddiad a darn o dystiolaeth rydych yn eu cyflwyno gyda'ch datganiad achos, er enghraifft: adroddiad y Seicolegydd Addysg, dyddiedig 5 Mawrth 2012,
- peidiwch ag anfon dogfennau gwreiddiol, dim ond llungopiâu o'r gwreiddiol.

## Terfyn amser ar gyfer datganiadau achos

Mae'n rhaid i ni dderbyn eich datganiad achos ac unrhyw dystiolaeth arall o fewn terfyn amser caeth. Byddwn yn dweud wrthoch chi beth yw'r terfyn hwnnw. Fel arfer, bydd gennych 30 diwrnod gwaith.

### **Mae cyfyngiadau o ran derbyn tystiolaeth sy'n dod i law ar ôl i'r dyddiad cau ar gyfer datganiadau achos fynd heibio.**

Weithiau, mae pobl eisiau anfon fideos, recordiadau a lluniau atom. Yr un yw'r cyfyngiad amser ar gyfer anfon y rhain i mewn, ond a wnewch chi anfon pum copi o unrhyw recordiad neu lun os gwelwch yn dda. Anfonwch ddeunyddiau fideo a sain atom ar ffurf DVD neu CD yn unig os gwelwch yn dda. Dylech gadw tystiolaeth wedi'i recordio mor fyr â phosibl.

Cofiwch hefyd nad ydyn ni'n gallu derbyn tystiolaeth sy'n cynnwys gwybodaeth, recordiadau neu luniau o blant eraill heblaw eich plant eich hun am resymau cysylltiedig â diogelu data.

## Yr hyn sy'n ofynnol o dan reoliadau'r Tribiwnlys

Mae'n rhaid i chi gyflwyno datganiad achos ac unrhyw dystiolaeth rydych yn bwriadu dibynnu arni mewn da bryd, i gyrraedd swyddfa TAAAC cyn diwedd y cyfnod a bennwyd ar gyfer y datganiad achos.

### Rhaid i'r datganiad achos gynnwys y canlynol:

Ym mhob achos lle mae **rhiant y plentyn wedi gwneud yr hawliad**, rhaid cynnwys:

- sylwadau'r plentyn ar y materion sy'n gysylltiedig â'r hawliad; **neu**
- y rhesymau pam na ddarparwyd y sylwadau.

Lle mae'r plentyn neu gyfaill achos y plentyn wedi gwneud yr hawliad, rhaid cynnwys:

- sylwadau rhieni'r plentyn ar y materion sy'n cael eu codi yn yr hawliad; **neu**
- y rhesymau pam nad yw'r sylwadau hyn wedi cael eu darparu.

Mae'n ofynnol o dan reoliadau'r Tribiwnlys fod sylwadau'r plentyn neu'r rhiant, yn dibynnu ar bwy sy'n gwneud y cais, yn cael eu darparu. Bydd **panel y tribiwnlys** yn disgwyl i chi gynnwys y wybodaeth hon yn eich datganiad achos oni bai bod rheswm da dros beidio â gwneud hynny.

Gellir cyflwyno sylwadau'r plentyn mewn sawl fformat gwahanol sy'n cyfateb i allu neu ddewisiadau'r plentyn. Gall y rhain gynnwys:

- Ysgrifennu
- Lluniau
- Recordiadau sain neu recordiadau gweledol neu
- Gallwch chi ofyn y cwestiynau i'r plentyn ac yna ysgrifennu ei atebion i lawr.

Mae'n rhaid i sylwadau'r plentyn fod ynglŷn â'r materion sy'n ymwneud â'r hawliad.

Os nad ydych chi'n gallu cael sylwadau eich plentyn, dywedwch wrthon ni pam.

## Gwybodaeth y mae angen i ni ei chael gennych chi

Yn dibynnu ar beth mae eich hawliad yn ymwneud ag o, efallai y bydd angen i ni gael gwybodaeth am y canlynol:

- Disgrifiad o anabledd eich plentyn a'r effaith y mae'r anabledd hwnnw'n ei gael ar ei allu i wneud gweithgareddau bob dydd.
- Tystiolaeth o ddiagnosis meddygol neu ddiagnosis proffesiynol arall sy'n ymwneud ag anabledd eich plentyn.
- Ym mha ffordd roedd anabledd eich plentyn i gyfrif am y gwahaniaethu honedig
- Amserlen a disgrifiad o'r digwyddiadau a'r gweithredoedd rydych chi'n honni oedd yn wahaniaethol.

- Disgrifiad ffeithiol o'r driniaeth neu o'r methiant i wneud addasiad rhesymol y mae eich hawliad yn berthnasol iddo a'r amgylchiadau a arweiniodd i'r methiant hwnnw neu'r driniaeth honno. Dylech roi manylion ffeithiol allweddol, megis dyddiad, amser, lle a nifer yr achosion o'r driniaeth neu'r methiant rydych yn honni i fod yn wahaniaethol.
- Pam rydych chi'n meddwl fod y driniaeth yn anghyfreithlon.
- Pa gamau neu addasiadau y gellid bod wedi'u rhoi ar waith i atal y camwahaniaethu honedig?
- Beth fydddech chi'n hoffi ei weld yn digwydd nawr? **Beth fydddech chi'n hoffi i'r Tribiwnlys ei orchymyn er mwyn unioni pethau?**

## Beth fydd y Corff Cyfrifol yn ei wneud am fy hawliad?

Bydd yr un amserlen â chi yn berthnasol i'r Corff Cyfrifol o ran anfon tystiolaeth atom. Bydd yn rhaid i'w ymateb ddweud a yw'n gwrthwynebu'r hawliad ai peidio, ac, os ydyw, bydd angen iddo roi rhesymau dros hynny. Dylai ddarparu crynodeb o'r ffeithiau a rhoi gwybod i ni beth yw barn eich plentyn am y materion dan sylw. Yn gyffredinol,

Gall y Corff Cyfrifol hefyd wneud cais am ddileu (dirwyn i ben) eich hawliad os yw'n credu ei fod yn achos nad ydym yn gallu rhoi gwrandawriad iddo. Os bydd hyn yn digwydd, byddwn yn anfon copi o'r cais atoch chi er mwyn i chi gael rhoi sylwadau arno. Byddwn hefyd yn rhoi cyfle i chi esbonio i ni pam rydych chi'n meddwl y dylai'r hawliad fynd yn ei flaen.

## Beth fydd yn digwydd os nad ydy'r Corff Cyfrifol yn gwrthwynebu'r hawliad?

Bydd barnwr tribiwnlysoedd yn ystyried yr achos ac yn penderfynu beth ddylai ddigwydd. Bydd yn penderfynu a oes modd delio â'ch achos ar sail y papurau neu a ddylid bwrw ymlaen â gwrandawriad beth bynnag. Os bydd yn penderfynu cynnal gwrandawriad, efallai y bydd yn rhoi cyfarwyddyd bod y Corff Cyfrifol yn cael ei atal rhag bod yn bresennol yn y gwrandawriad.

## Beth os na fydd y Corff Cyfrifol yn gyrru ymateb atom?

Os na fydd y Corff Cyfrifol yn anfon ymateb erbyn diwedd yr amser sydd ganddo i ymateb, mae yna nifer o bethau y gallwn ni eu gwneud, gan gynnwys eu gwahardd rhag cymryd rhan bellach yn yr hawliad. Cyn penderfynu beth i wneud, byddwn yn ysgrifennu at y Corff Cyfrifol i ofyn am esboniad ynghylch pam nad ydyn nhw wedi ymateb, neu nad ydyn nhw wedi ymateb mewn pryd. Bydd cadeirydd y tribiwnlys yn ystyried unrhyw ymateb mae'r Corff Cyfrifol yn ei roi ac yn penderfynu beth ddylai ddigwydd. Os bydd y Corff Cyfrifol yn cael ei wahardd rhag cymryd rhan bellach, byddwn yn penderfynu a oes modd delio â'ch cais ar sail y papurau neu a ddylid cynnal gwrandawriad o hyd, ond heb y Corff Cyfrifol.

Beth os ydw i'n ei chael yn anodd cael gafael ar ddogfen sy'n bwysig i f'achos?

Os ydych yn gwneud cais i ni ymhell cyn y gwrandawriad, efallai y byddwn yn gallu gwneud gorchymyn bod y Corff Cyfrifol neu unrhyw un arall a allai fod â gwybodaeth berthnasol i ryddhau'r wybodaeth honno.

## Tystiolaeth Ysgrifenedig Hwyr

Rydym yn galw dystiolaeth ysgrifenedig sy'n cael ei chyflwyno ar ôl y dyddiad cau ar gyfer datganiadau achos yn dystiolaeth ysgrifenedig hwyr. Mae cyfyngiadau o ran derbyn dystiolaeth ysgrifenedig hwyr.

Cewch ofyn i banel y Tribiwnlys ar ddiwrnod y gwrandawriad a ellir derbyn y dystiolaeth hwyr. Bydd panel y Tribiwnlys yn ystyried eich cais ar yr amod:

- bod y naill barti a'r llall yn cytuno y gellir derbyn y dystiolaeth ysgrifenedig hwyr; **NEU**
- eich bod yn gallu dangos bod y dystiolaeth ysgrifenedig hwyr yn bodloni'r amodau canlynol:
  - nid oedd y dystiolaeth hwyr ar gael, ac nid oedd yn rhesymol iddi fod ar gael, cyn y dyddiad cau ar gyfer y datganiad achos; a
  - mae copi o'r dystiolaeth hwyr wedi cael ei anfon i TAAAC ac i'r parti arall mewn pryd iddynt ei dderbyn o leiaf 5 diwrnod gwaith clir cyn y gwrandawriad.
  - Dim ond ar ôl ystyried unrhyw sylwadau gan y parti arall a dim ond os yw'r dystiolaeth yn annhebygol o atal y gwrandawriad rhag cael ei gynnal yn effeithiol y mae panel y Tribiwnlys yn gallu derbyn dystiolaeth ysgrifenedig hwyr
  - Os nad ydi'r amodau yn cael eu bodloni, efallai y bydd panel y tribiwnlys yn caniatáu i barti gyflwyno dystiolaeth ysgrifenedig hwyr yn y gwrandawriad beth bynnag os oes modd dangos bod peidio â derbyn y dystiolaeth yn creu perygl difrifol o anfantais i'r parti sy'n dibynnu arni.
- Mae panel y tribiwnlys yn gallu gwrthod derbyn dystiolaeth ysgrifenedig hwyr os yw o'r farn y byddai gwneud hynny yn mynd yn groes i fuddiannau cyfiawnder.
- Os nad ydy TAAAC a'r parti arall wedi cael copi o'r dystiolaeth ysgrifenedig hwyr yn barod mewn da bryd iddynt ei dderbyn o leiaf 5 diwrnod gwaith clir cyn y gwrandawriad, mae angen i chi ddod â 5 copi o'r dystiolaeth ysgrifenedig hwyr gyda chi i'r gwrandawriad.

## Y gwrandawriad

Fel arfer, byddwn yn ysgrifennu atoch chi ar ôl i ni gael y datganiadau achos i roi gwybod i chi am ddyddiad y gwrandawriad.

Bydd y gwrandawriad fel arfer yn cael ei gynnal mewn gwesty sydd ddim mwy nag awr o siwrne o ble rydych chi'n byw.

Fel arfer mae gwrandawriadau yn dechrau am 10:00 o'r gloch y bore ac yn aml yn para drwy'r dydd. Dylech anelu at gyrraedd o leiaf 30 munud cyn i'r gwrandawriad ddechrau.